Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

## Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru











## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth Rhif: 066/2008
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2008

# Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

**Cynulleidfa** Pob Sefydliad Addysg Uwch sy'n ymwneud â hyfforddiant i athrawon; UCET Cymru; cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sy'n ymwneud ag addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Trosolwg** Dogfen wybodaeth yw hon er mwyn helpu i gyflwyno ADCDF mewn ysgolion. Mae'n egluro safonau SAC Cymru mewn perthynas ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF).

**Camau i'w cymryd** Dim camau i'w cymryd - er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth** Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen wybodaeth hon at:
Jane Nettleton
Yr Uned Strategaeth
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1402
Ffacs: 029 2082 6109
E-bost: esdgc@wales.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** I gael copïau ychwanegol cysylltwch â'r cyfeiriad uchod. Gallwch hefyd weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:
http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/sustainabledevelop/?lang=cy

**Dogfennau cysylltiedig**
Cynllun gweithredu ADCDF 2006
Diweddariad o'r cynllun gweithredu ADCDF - Ionawr 2008
ADCDF - dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion
Safonau SAC ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon
Dysgu y tu allan i'r dosbarth 2007

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 4789 8
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2008
CMK-22-07-310
D1620809

Diolch i rspb-images.com am ddarparu llun 2 sydd ar y clawr

# Cynnwys


**Crynodeb** 2

1 Beth yw ADCDF 4

2 Beth ddylwn i ei wybod am ADCDF 8

3 Lle ddylwn i gynnwys ADCDF yn fy ngwaith proffesiynol 10

4 ADCDF mewn dysgu ac addysgu 12

5 Gwerthoedd ac agweddau mewn ADCDF 14

6 Datblygu sgiliau yn ADCDF 15

7 Sut y gallwch chi hybu rhywfaint o hyn wrth addysgu 17

8 Astudiaethau achos ysgol-gyfan 26

9 Cynllunio ar gyfer eich dyfodol 28

10 Dogfennau ac adnoddau 29



ADCDF: Gwybodaeth
ar gyfer athrawon dan
hyfforddiant ac athrawon
newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 066/2008

# Crynodeb

Diben y ddogfen hon yw egluro safonau SAC Cymru mewn perthynas ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF):

- Mae'n ceisio helpu hyfforddeion HAGA ac athrawon newydd trwy eu cyfeirio at y mathau o ddogfennau y dylai athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd wybod amdanynt.
- Mae'n awgrymu sut y gallant ymdrin ag ADCDF wrth addysgu plant.
- Mae'n edrych ar y math o strategaethau y gellir eu defnyddio ar gyfer dysgu ac addysgu a sut y gall ysgolion hybu ADCDF trwy eu hethos.
- Mae'n rhestru nifer o adnoddau a sefydliadau a all eu helpu i roi cychwyn ar ADCDF.




**"Mae newid yn yr hinsawdd, tlodi, gwrthdaro a phwysedd ar ddefnyddwyr oll yn rhan o'n byd ni heddiw. Mae ADCDF yn chwilio am ffyrdd o godi ymwybyddiaeth a gweithredu i fynd i'r afael â chanlyniadau'r ffyrdd o fyw yr ydym yn eu dewis ac i'n paratoi ar gyfer byw'n gynaliadwy yn yr 21ain ganrif fel dinasyddion byd-eang"**

Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes - Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu, Diweddarwyd Ebrill 2008


ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

## Beth os mai yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon y byddaf yn dysgu?

Fe welwch fod themâu tebyg yng ngwricwla y gwledydd hyn. Fe'u gwelir o dan y teitlau y Dimensiwn Byd-eang, Datblygu Cynaliadwy, Ysgolion Cynaliadwy, Dinasyddiaeth ac ati. Ceir rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gyfer pob gwlad yn yr adran *Curriculum* ar wefan y 'Global Dimension' sef www.globaldimension.org.uk. Yn Lloegr, dylid darllen "Global Dimension to new Professional Standards for QTS".

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

# 1 Beth yw Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang?

Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yn ymwneud â'n bywyd bob dydd. Mae'n ymwneud â materion mawr y byd - newid yn yr hinsawdd, masnach, y traul ar adnoddau a'r amgylchedd, hawliau dynol, gwrthdaro a democratiaeth - a'u perthynas â'i gilydd a'u perthynas â ni. Mae'n ymwneud â'r ffordd rydyn ni'n trin y ddaear a'n gilydd, faint bynnag o bellter sydd rhyngom. Mae'n ymwneud â'r ffordd yr ydyn ni'n paratoi at y dyfodol. Mae gan bawb ohonom ran i'w chwarae.

**"Addysg yw'r arf grymusaf y gallwch ei ddefnyddio i newid y byd"**

Nelson Mandela

Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yn thema drawsbynciol yng nghwricwlwm diwygiedig Cymru 2008 (*Manteisio i'r eithaf ar ddysgu*, APADGOS, 2008). Mae'r ddogfen allweddol ar ADCDF yng Nghymru, *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion* (APADGOS, 2008), yn pwysleisio bod ADCDF yn edrych ar addysg mewn ffordd gyfannol gan:

- baratoi dysgwyr ar gyfer yr heriau newydd a fydd yn rhan o'u dyfodol, fel newid yn yr hinsawdd a chystadleuaeth ryngwladol am adnoddau
- eu helpu i ddeall natur gymhleth, gydgysylltiedig eu byd
- meithrin y sgiliau a fydd yn galluogi dysgwyr i feddwl yn feirniadol, meddwl yn ochrol, cysylltu syniadau a chysyniadau a gwneud penderfyniadau hyddysg.

Mae'n pwysleisio y dylid ymdrin â hyn ar draws yr ysgol gyfan, gan gynnwys:

- Ymrwymiad ac arweiniad
- Dysgu ac addysgu
- Rheolaeth yr ysgol
- Partneriaethau a chymuned
- Ymchwil a monitro

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

Er mwyn pwysleisio pa mor eang yw ADCDF, mae'r *Ddealltwriaeth Gyffredin* yn edrych ar ddysgu ac addysgu trwy saith thema gydgysylltiedig:




ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008


Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

Mae'r ddogfen yn pwysleisio **NAD** yw ADCDF:

- yn bwnc ar wahân
- yn gyfres o gysyniadau neu destunau ar wahân
- yn gyfyngedig i'r ystafell ddosbarth
- yn gyfrifoldeb i ddim ond un athro yn yr ysgol
- yn golygu trosglwyddo set o atebion i ddysgwyr

Gall ADCDF ysgogi plant gan ei fod yn cynnig cyd-destunau diddorol, amserol, go iawn sy'n berthnasol i ddysgwyr a chyfle cyffreous i ddatblygu sgiliau. Mae llawer o'r cynlluniau presennol mewn ysgolion fel EcoSgolion, Ysgolion Iach, Ysgolion Masnach Deg, a'r gwahanol fathau o bartneriaethau rhyngwladol ar gyfer ysgolion, yn cyfrannu at ADCDF.

Dyma ddwy enghraifft sy'n dangos pa mor gydgysylltiedig yw themâu ADCDF. Yn y ddwy, mae un thema ganolog yn cael ei chysylltu â themâu eraill. **Rhowch chi gynnig ar lenwi'r ail.**






ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008




ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

## 2 Beth ddylwn i ei wybod am ADCDF?

### Egluro Safonau'r SAC


### Mae dwy safon SAC sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ADCDF: S2.2 a S3.3.15

**S2 Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol**

S2.2 Nodau a chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol


Er mwyn ennill SAC, mae'n rhaid i hyfforddeion ddangos eu bod yn ymwybodol o nodau a chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn eu deall, yn benodol:-

- Eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.




Mae'r canllawiau hyn ar ADCDF yn cynnwys:

- *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion* (APADGOS, 2008). Hon yw'r ddogfen Gymreig allweddol sy'n ymdrin ag ADCDF. Mae'n cynnwys diffiniadau, canlyniadau dysgu, ac enghreifftiau ymarferol o'r meysydd allweddol.
- *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu* (APADGOS, 2008) sy'n enwi ADCDF fel thema trawsbynciol trwy'r cwricwlwm cyfan.
- *Y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol* (APADGOS, 2008) sy'n cynnwys ADCDF fel un o'i bum thema.
- Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n cynnwys llawer o enghreifftiau o ADCDF. Mae gan bob un ddatganiad ar berthnasedd y pwnc i ADCDF yn ABCh (AADG, 2008).
- Canllawiau Arolygu Estyn ar gyfer ADCDF *Diweddariad ar arolygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion* (Estyn, 2006).




ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008




- Dogfen *Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth* (AADG 022/ 2007) sy'n cynnwys llawer o enghreifftiau i ddangos sut y gellir cynnwys ADCDF trwy ddysgu yn yr amgylchedd naturiol.
- Dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu* (AADGOS, 2006) sy'n dangos sut y gellir gweithredu ADCDF ar draws pob sector addysg.

Mae'r dogfennau hyn i gyd yn tanlinellu pwysigrwydd yr elfennau a ganlyn:

- y materion y mae ADCDF yn delio â nhw h.y. yn y saith thema yn *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion* (APADGOS, 2008)
- y sgiliau, y gwerthoedd a'r agweddau, a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n gysylltiedig ag ADCDF
- effaith ein gwerthoedd a'n hagweddau ni ar y ffordd yr ydym yn edrych ar ADCDF
- sut y mae ein pwnc arbenigol ni'n cyfrannu at ADCDF
- swyddogaeth ADCDF yn ABCh
- sut y gellir gwella ADCDF trwy gynllunio a gweithgareddau traws-gwricwlaidd
- sut y gellir cynnwys ADCDF wrth gynllunio gweithgareddau'r ysgol gyfan a'i gyfraniad at ethos yr ysgol gyfan
- ADCDF ar gyfer arweinwyr yr ysgol ac arweinwyr pwnc
- methodolegau y gellir eu defnyddio i hyrwyddo ADCDF e.e. dysgu trwy brofiad a dysgu cyfranogol, sgiliau meddwl, dysgu trwy gydweithio a chydweithredu, dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- sut y gellir gwella ADCDF trwy ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- sut y gall sefydliadau a phartneriaethau gyfrannu at ADCDF
- sut y gall ADCDF mewn ysgol gyfrannu at y gymuned, yn lleol ac yn fyd-eang

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

# 3 Lle ddylwn i gynnwys ADCDF yn fy ngwaith proffesiynol?

**"Unwaith y dechreuwch chi feddwl fel hyn, mae'n dod yn annaturiol peidio â chynnwys materion byd-eang. Gallech wneud y math hwn o beth mewn llawer o wahanol sefyllfaoedd a themâu."**

Hyfforddai TAR cynradd

**"Mae ADCDF wedi bywiogi fy ngwersi. Mae'r disgyblion yn cael eu hysgogi ac mae'n gwneud fy nysgu gymaint yn fwy diddorol trwy ei roi mewn cyd-destun go iawn"**

Hyfforddai TAR cynradd

**S3 Addysgu**

S3.1 *Cynllunio, disgwyliadau a thargedau*
Er mwyn ennill SAC, mae'n rhaid i'r hyfforddeion arddangos yr holl rinweddau canlynol:

S3.3.15 Mae'n rhaid iddynt achub ar gyfleoedd priodol i addysgu a hybu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, ym mhob agwedd ar eu haddysgu.

Wrth wneud hyn, dylech ystyried y pethau a ganlyn:

- ADCDF wrth ddysgu'ch pwnc/pynciau i gyd
- ADCDF mewn sesiynau ABCh wrth ddysgu'ch pwnc/pynciau a'r tu allan i'ch pwnc/pynciau
- gweithio gyda chydweithwyr i gynllunio a chydgysylltu gweithgareddau trawsgwricwlaidd ar gyfer ADCDF
- defnyddio nifer o wahanol fethodolegau dysgu ac addysgu
- defnyddio dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth i gyfrannu at ADCDF
- datblygu partneriaethau gydag unigolion a sefydliadau perthnasol
- cyfrannu at gynllunio ADCDF yng ngweithgareddau ac yn ethos yr ysgol gyfan
- cyfrannu at weithgareddau ADCDF sydd o fudd i gymunedau yn lleol ac yn fyd-eang

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

**“Ges i nifer o gyfleoedd ar brofiad ysgol. Fe wnes i sesiwn gyda Blwyddyn 8 ar Lygredd o ganlyniad i ryfel Irac. Fe es i gyfarfod o’r Tîm Gwyrdd, clwb ar ôl ysgol a chefais weld sesiwn prosiect Byd-Weithio! mewn gwers addysg grefyddol.“**

Hyfforddai TAR uwchradd



## Oes raid i mi ei alw’n ADCDF?

Bydd gweithgareddau ADCDF yn codi’n naturiol wrth i chi ddysgu a does dim rhaid rhoi’r label ADCDF ar bob un.
Serch hynny, byddai’n ddefnyddiol pe bai eich myfyrwyr yn cael cyfleoedd i ddysgu a thrafod ystyr y geiriau a phe gallech dynnu sylw at waith cysylltiedig a wneir o dan destunau a phynciau eraill. Wedyn, byddant yn dechrau gweld y cysylltiadau a’r darlun ehangach.

# 4 ADCDF mewn dysgu ac addysgu

## Sut y mae cynnwys ADCDF mewn dysgu ac addysgu?

Mae *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu* (APADGOS, 2008) yn tynnu sylw at ADCDF fel thema drawsbynciol yng nghwricwlwm diwygiedig Cymru. Fe gewch gyfleoedd ar gyfer ADCDF ar bob lefel mewn addysg, ym mhob testun, ym mhob pwnc, yn ABCh ac yn y Cwricwlwm Cymreig, mewn gweithgareddau ysgol-gyfan ac yn y ffordd y mae'r ysgol yn gweithio fel sefydliad.

Mae ***Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion*** (APADGOS, 2008) yn cynnwys enghreifftiau o ffyrdd i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth, a gwerthoedd ym mhob cyfnod allweddol. Ceir rhagor o wybodaeth yn y ddogfen honno.

Dyma rai cwestiynau i'w hystyried:

- A yw'r hyn a ddysgir yn cynnig cipolwg o safbwynt y gorffennol, y presennol a'r dyfodol?
- A yw'r dysgu'n mynd i'r afael ag un neu fwy o brif feysydd ADCDF h.y. cyfoeth a thlodi, iechyd, newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd naturiol, defnyddio a gwastraffu?
- A yw'n dangos y cysylltiadau rhwng y materion hyn a phobl, lleoedd a digwyddiadau yn lleol ac yn fyd-eang?
- A yw'r dysgu'n berthnasol i fywydau'r dysgwyr?
- A yw'n annog y dysgwyr i ystyried y materion mewn ffordd feirniadol?
- A yw'r dysgu yn mynd i'r afael â materion dadleuol ac yn ystyried ffyrdd o ddatrys gwrthdaro?
- A yw'r dysgu'n ystyried gwerthoedd a safbwyntiau diwylliannol?
- A yw'n grymuso'r dysgwyr i weithredu mewn ffordd briodol?

Mae athrawon heddiw'n cael eu hannog i rannu'r amcanion dysgu â'u disgyblion ar ddechrau'r wers, a byddai hynny'n adeg briodol i ddatgan a oes elfennau o ADCDF wedi'u cynnwys yn y wers honno. Os ceir sesiwn drafod ar gyfer y dosbarth cyfan, byddai hynny hefyd yn gyfle priodol i drafod ADCDF â'r disgyblion.

## Gwneud ADCDF yn berthnasol i fywydau'ch disgyblion

Mae gwneud ADCDF yn berthnasol i fywydau'ch disgyblion yn ei gwneud yn fwy diddorol ac ysgogol a bydd yn eu helpu i weld a deall y byd fel lle cymhleth a chydgysylltiedig. Dyma rai cwestiynau a syniadau i'w hystyried:

- Pa gysylltiadau sydd gan y disgyblion eisoes â lleoedd a gwledydd eraill? Er enghraifft, a yw'r disgyblion yn gwybod o ble y daw eu bwyd, dillad, cyfrifiaduron, ffonau symudol a nwyddau bob-dydd, sut y cânt eu gwneud a beth yw eu heffaith ar bobl a'r amgylchedd?



- Gofynnwch i'r disgyblion feddwl beth y maent wedi'i wneud heddiw i wneud y byd yn fwy cynaliadwy. Er enghraifft, efallai y cewch atebion fel cerdded i'r ysgol, diffodd y cyfrifiadur, prynu nwyddau lleol, bod yn garedig i bobl eraill.

**Meddyliwch am ffyrdd eraill o wneud ADCDF yn berthnasol i'ch disgyblion.**

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

# 5 Gwerthoedd ac agweddau mewn ADCDF




Er mwyn sicrhau NAD mater o roi set o atebion i ddisgyblion yw ADCDF, mae'n bwysig bod y disgyblion yn cael gweld gwahanol deunyddiau o wahanol safbwyntiau. Er mwyn meddwl yn feirniadol am faterion fel tlodi, ni allwch gychwyn â set o dybiaethau e.e. mai canslo dyledion a Masnach Deg yw'r atebion. Mae'n rhaid ystyried atebion posibl eraill e.e. masnach rydd a llywodraethu da. Ni fyddai'r un athro yn cyflwyno materion moesegol fel erthylu heb ofalu bod y disgyblion yn cael clywed sylwadau o wahanol safbwyntiau ac mae'n rhaid i'r un peth fod yn wir am ADCDF.

Mae angen cyfleoedd ar ddysgwyr i ddatblygu eu gwerthoedd eu hunain trwy ymchwilio ac asesu tystiolaeth, trafod a rhesymu, a dod yn ymwybodol o'u gwerthoedd eu hunain mewn perthynas â gwerthoedd pobl eraill. Yna, bydd ganddynt sylfaen resymegol ar gyfer pa gamau bynnag y maent am eu cymryd mewn perthynas â materion ADCDF.

**"Cyn i chi orffen bwyta'ch brecwast y bore 'ma, byddwch wedi dibynnu ar hanner y byd".**

Martin Luther King

Mae angen i ni, fel athrawon, sylweddoli bod ein gwerthoedd ni yn cael eu llunio gan ein profiadau a dylem ystyried sut y bydd y rhain yn effeithio ar ein dysgu. Dylem fod yn hwyluswyr dysgu yn hytrach na disgwyl i ddisgyblion dderbyn ein gwerthoedd ni neu set benodol o werthoedd. Fodd bynnag, dylem sylweddoli y rhan y gallwn ei chwarae fel modelau rôl cadarnhaol fel nad oes gwrthdaro rhwng yr hyn a ddywedwn a'r hyn a wnawn.

**Yn eich barn chi, pa effaith a gaiff eich gwerthoedd chi ar eich addysgu?**


**Ydych chi o'r farn fod yna rai gwerthoedd sylfaenol?**

**Sut allwch chi osgoi gwthio'ch gwerthoedd chi ar ddisgyblion?**

**Pa gyfleoedd ydych chi'n eu rhoi i'ch disgyblion i ystyried a meithrin eu gwerthoedd eu hunain?**

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru
Gorffennaf 2008
Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

# 6 Datblygu sgiliau yn ADCDF




Mae'r *Fframwaith Sgiliau* (APADGOS, 2008) yn tanlinellu pwysigrwydd meithrin dysgu yn hytrach na dim ond trosglwyddo ffeithiau. Mae'n hybu dulliau dysgu fel cyd-ddysgu, dysgu gweithredol a rhyngweithiol, yn cynnwys cwestiynu, cynllunio, datrys problemau, creadigrwydd a myfyrio. Mae'n helpu i ddatblygu sgiliau allweddol fel meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhifau.

Mae *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion* (APADGOS, 2008) hefyd yn pwysleisio'r angen am sgiliau fel meddwl yn feirniadol, meddwl yn ochrol, cysylltu syniadau a chysyniadau a gwneud penderfyniadau gwybodus.



ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

**Pa fathau o strategaethau y byddai ysgol eu hangen i hybu'r sgiliau hyn?**

**Pa rai o'r strategaethau isod yw'r pwysicaf yn eich barn chi?**

- Defnyddio nifer o wahanol strategaethau
- Annog dysgu cyfannol
- Myfyrio ar ei weithredoedd
- Gweithredu'n ddemocrataidd
- Disgybl-ganolog
- Annog deialog a thrafodaeth
- Annog ymholi a meddwl yn feirniadol
- Ystyried gwahanol safbwyntiau
- Annog cyd-ddysgu a dysgu cydweithredol
- Hybu hunan-werth a hunan-ymwybyddiaeth
- Datblygu sgiliau arwain
- Annog creadigrwydd
- Hybu cyfleoedd i wneud penderfyniadau
- Gweld ei hunan fel cymuned
- Hybu cyfleoedd i feddwl am y dyfodol
- Rhoi cyfleoedd i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- Annog parch at yr amgylchedd
- Annog cyfranogiad
- Rhoi ac annog cyfrifoldeb
- Gwneud cysylltiadau rhwng pynciau, bywydau disgyblion a'r byd ehangach
- Annog dysgu trwy brofiad
- Cynnwys a gwerthfawrogi yr holl ddisgyblion a'u hawliau
- Ystyried eich gwerthoedd a'ch agweddau chi a rhai pobl eraill
- Annog cyfleoedd i weithredu

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

# 7 Sut y gallwch chi hybu rhywfaint o hyn wrth addysgu?

**“Mae ADCDF wedi bywiogi fy ngwersi. Mae’r disgyblion yn cael eu hysgogi ac mae’n gwneud fy nysgu gymaint yn fwy diddorol trwy ei roi mewn cyd-destun go iawn”**

Hyfforddai TAR cynradd

Gall llawer o strategaethau dysgu ac addysgu ADCDF helpu i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau a gwerthoedd. Mae *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion* (APADGOS, 2008) yn rhoi tablau o ganlyniadau dysgu a gweithgareddau ar gyfer pob Cyfnod Allweddol a all gyfrannu at ADCDF yn yr ystafell ddosbarth, yn yr ysgol gyfan a thrwy bartneriaethau. Ceir enghreifftiau yn yr adran ar ADCDF hefyd ar wefan Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, Cymru: www.ngfl-cymru.org.uk.

Mae llawer o gyrff anllywodraethol wedi datblygu cynlluniau gwersi ac adnoddau defnyddiol a di-dâl ar gyfer ADCDF. Ceir rhestr o’r adnoddau dysgu a’r gwefannau ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Gall y gweithgareddau a restrir ar y tudalennau a ganlyn roi syniadau i chi ar gyfer cychwyn.

## ADCDF yn y Cyfnod Sylfaen




Mae *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant yn y Cyfnod Sylfaen* ar gyfer plant 3 - 7 oed yng Nghymru (APADGOS, 2008) yn cynnig llaewr o gyfleoedd i ddatblygu ADCDF. Mae’n annog dysgu trwy brofiad a chwarae cydweithredol ac mae’n rhoi pwyslais ar ddatblygiad cyfannol plant a’u sgiliau ar draws y cwricwlwm. Caiff barn a syniadau plant eu gwerthfawrogi a cheir cyfleoedd i drafod eu profiadau a’u syniadau am eu bywydau a’u dyfodol. Mae’r dull hwn yn hybu cyfleoedd a gwerthoedd cyfartal ac mae’n dathlu amrywiaeth. Mae’r pwyslais ar chwarae yn yr awyr agored yn rhoi cyfle i blant ddod i werthfawrogi byd natur, dysgu cyd-chwarae, gwneud penderfyniadau ac ati. Gellir defnyddio gwybodaeth am y byd a dealltwriaeth ohono fel man cychwyn ar gyfer dysgu am bobl a lleoedd ac ystyried y tebygrwydd a’r gwahaniaethau rhyngddynt. Bydd datblygiad creadigol yn eu helpu i gyfathrebu ac i fynegi eu syniadau creadigol.

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

**Mae Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn un o bum thema ABCh**

## ADCDF mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Mae'r *Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* (APADGOS, 2008) yn edrych ar ABCh mewn ffordd eang, cytbwys a chyfannol. Mae'n cynnwys nifer o brofiadau i hybu datblygiad personol a chymdeithasol a lles dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gynllunnir ymlaen llaw a chyfleoedd eraill sy'n rhan o ethos a bywyd cymunedol yr ysgol neu'r coleg. Mae Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn un o bum thema ABCh. Un o'r themâu eraill yw Dinasyddiaeth Weithredol sy'n annog perthnasoedd llwyddiannus, cyfranogiad yn eu cymuned leol a'r gymuned fyd-eang a dealltwriaeth ymarferol o'u hawliau a'r cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau nhw.

## Rhai syniadau ar gyfer ADCDF wrth ddysgu pynciau

Mae holl orchmynion pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer ADCDF a dylid cyfeirio at y rhain wrth gynllunio gweithgareddau. Ceir datganiad ar berthnasedd ADCDF ym mhob gorchymyn pwnc. Bydd yr enghreifftiau a restrir isod yn eich helpu i ddechrau meddwl am berthnasedd ADCDF i'ch pwnc chi.




Ceir rhagor o wybodaeth am gwmpas a chynnwys ADCDF yn *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion* (APADGOS, 2008).

Mae'r cyfleoedd ar gyfer ADCDF o fewn pynciau'n cynnwys:

**Saesneg**
- Cynnwys storïau a thestunau o wahanol ddiwylliannau ac mewn cyd-destunau lleol a byd-eang a chyd-destun datblygu cynaliadwy.
- Defnyddio trafodaethau, dadleuon, drama a chwarae rôl i ddysgu mwy am eu hunaniaeth eu hunain, profiadau pobl eraill, y byd a'u lle nhw ynddo, a materion fel democratiaeth a dinasyddiaeth.
- Gwerthuso beirniadol: Beth sy'n 'newyddion'? Beth sy'n gwneud 'stori dda'? Pwy sy'n penderfynu?

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

- Dadansoddi hysbysebion ac effaith y cyfryngau ar faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang.
- Defnyddio testunau dwyieithog i godi ymwybyddiaeth o wledydd ac ieithoedd eraill.

**Cymraeg**
- Trafod a dysgu am bwysigrwydd eu diwylliant eu hunain, am y gwahaniaethau yn y diwylliant Cymreig - Gogledd/De, trefol/gwledig ac ati, ac am amrywiaeth diwylliannau eraill Cymru;
- Cynnwys storïau a thestunau o wahanol ddiwylliannau ac mewn cyd-destunau lleol a byd-eang a chyd-destun datblygu cynaliadwy;
- Defnyddio trafodaethau, dadleuon, drama a chwarae rôl i ddysgu mwy am eu hunaniaeth eu hunain, profiadau pobl eraill, y byd a'u lle nhw ynddo, a materion fel democratiaeth a dinasyddiaeth.
- Ceisio rhagweld Cymru'r dyfodol.



CAT

Ymwelodd disgyblion â'r Ganolfan Dechnoleg Amgen ac archwilio ffynonellau adnewyddadwy ar gyfer cynhyrchu trydan.

**Mathemateg**
- Edrych ar siapiau a phatrymau o wahanol ddiwylliannau;
- Trafod gwreiddiau mathemateg - pa wahanol ddiwylliannau sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad mathemateg a'r defnydd a wneir ohono;
- Cymhwyso mathemateg i broblemau go-iawn sy'n berthnasol i faterion yn yr 21fed ganrif e.e. defnyddio/trafod data am wledydd eraill, materion byd-eang, defnyddio graffiau i gofnodi faint o ynni a ddefnyddir, tlodi, ystadegau datblygu ac ati.

**Gwyddoniaeth**
- Cymharu anghenion pethau byw a phwysigrwydd bioamrywiaeth.
- Gwneud gwaith gwyddoniaeth a gwaith amgylcheddol yn yr awyr agored.
- Ystyried rhyng-berthnasoedd mewn cymunedau - rhyngddibyniaeth.
- Dysgu am y ddaear yn y gofod - arwyddocad, maint ac ati.
- Trafod natur gwyddoniaeth, dilemâu moesol mewn gwyddoniaeth.
- Ystyried datblygiadau gwyddonol a thechnolegol yn lleol ac yn fyd-eang.

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

**Mae wedi fy ngwneud yn fwy ymwybodol bod modd defnyddio gwyddoniaeth fel offeryn ar gyfer ADCDF. Rwy'n siwr o ddal i feddwl amdano.**

Myfyriwr TAR uwchradd

- Trafod y defnydd o ynni niwclear.
- Ystyried nodweddion defnyddiau mewn perthynas â chynaliadwyedd e.e. dysgu am fàs/arbed ynni, a defnyddiau, ynni ac adnoddau y gellir eu hailgylchu neu eu hadnewyddu.
- Dysgu am gynhesu byd-eang ac effeithiau eraill ar yr atmosffer a'u trafod.
- Ystyried dyfodol carbon-isel yn bersonol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.
- Dysgu am ffynonellau ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy.

**Dylunio a Thechnoleg**
- Defnyddio adnoddau wedi'u hailgylchu a rhai adnewyddadwy i ddylunio a gwneud pethau.
- Ystyried anghenion a dymuniadau.
- Ystyried gwahanol ddiwylliannau, ethnigrwydd, dewisiadau deietegol a chredoau crefyddol wrth ddylunio a gwneud bwydydd, cardiau cyfarch ac ati.
- Ystyried dylunio nwyddau mewn ffordd gynaliadwy e.e. y dewis o ddefnyddiau a manteision cymharol ailddefnyddio, ailgylchu a defnyddio defnyddiau biodiraddiadwy.
- Ystyried deunydd pacio nwyddau a materion cynaliadwyedd.
- Ystyried dyluniad ystafelloedd dosbarth, yr iard a'r ysgol.
- Trafod y defnydd o nwyddau Masnach Deg, effaith prosesu, milltiroedd bwyd a bwydydd a gynhyrchir yn lleol.
- Ystyried dylanwadau dylunio o wahanol wledydd a chymdeithasau.
- Trafod sut y gellir defnyddio technoleg i wella ansawdd bywyd pobl yn lleol ac yn fyd-eang.

**TGCh**
- Ystyried potensial TGCh ar gyfer dysgu mwy am bobl o ddiwylliannau a chymdeithasau gwahanol a chyfathrebu gyda nhw;
- Trafod effaith TGCh ar iaith a diwylliant.
- Ystyried goblygiadau TGCh ar ynni a meysydd eraill.
- Defnyddio TGCh i helpu i wneud penderfyniadau.




- Trafod data am faterion byd-eang e.e. poblogaeth, ffoaduriaid ac ati.
- Gwaredu/ailgylchu caledwedd.

**Daearyddiaeth**



- Sylwi a holi: lle mae e? pa fath o le? sut cafodd ei ffurfio? sut mae'n newid? beth allai ddigwydd nesa? beth yw fy marn i am y peth?
- Sylwi ar bethau tebyg a phethau gwahanol.
- Cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd.
- Defnyddio dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth - ymweliadau, arolygon ac ati.
- Trafod y cysylltiad (rhyngddibyniaeth) rhwng pobl ym mhedwar ban byd - bwyd, dillad, tanwydd, yr amgylchedd ac ati.
- Cymryd rhan mewn partneriaethau a chysylltiadau rhyngwladol rhwng ysgolion a'u defnyddio i ystyried safbwyntiau ac ymatebion i faterion fel newid yn yr hinsawdd a masnach.
- Cynnal sesiynau chwarae rhan a thrafodaethau am ddatblygu cynaliadwy a materion byd-eang.
- Chwarae gêmau efelychu am fwyd a ffermio, masnach fyd-eang a chymharu materion masnach rydd, masnach deg, masnach annheg.
- Ystyried agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar faterion sy'n effeithio ar gymunedau yng Nghymru.
- Trafod pwysigrwydd yr amgylchedd, effaith pobl ar yr amgylchedd, gofalu am yr amgylchedd.
- Trafod dyfodol dymunol, dyfodol posibl a'r dyfodol tebygol.
- Ystyried cynhesu byd-eang ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.




**Hanes**

- Cymharu bywyd yn y gorffennol â bywyd heddiw a chymharu bywyd yma heddiw â bywyd mewn cymdeithas arall heddiw.
- Cymharu o ble y daeth bwydydd a defnyddiau yn y gorffennol ac o ble y dônt heddiw.
- Ystyried effaith pobl ar yr amgylchedd a datblygiad mewn gwahanol gyfnodau.
- Cymharu bywyd bob dydd dau gyfnod gwahanol iawn i'w gilydd a sut fywyd oedd gan bobl dlawd a phobl gyfoethog.

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

**"Bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 mewn arddangosfa ar y fasnach gaethweision yng Nghastell Penrhyn pan oeddent yn astudio'r cysylltiadau rhwng ardal Chwarel y Penrhyn, Bethesda a Jamaica ddoe a heddiw."**



- Edrych ar y cysylltiadau rhwng gwahanol gyfnodau a chysylltiadau'r gorffennol a'r presennol.
- Dysgu am hanes democratiaeth a hawliau dynol.
- Ystyried agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ar fywyd yng Nghymru fel rhan o'r byd.
- Ystyried gwahanol safbwyntiau a dehongliadau am bobl a digwyddiadau.

**Celfyddyd**
- Edrych i weld sut y mae pobl yn mynegi teimladau trwy gelfyddyd.
- Dysgu am artistiaid o Gymru a'r byd a beth sy'n eu hysgogi.
- Defnyddio pethau naturiol, pethau wedi'u hailddefnyddio, pethau wedi'u hadfer a phethau cynaliadwy.
- Ystyried ac edrych ar gelfyddyd o fyd natur ac ym myd natur.
- Ystyried amrywiaeth a chyfoeth cymdeithasau a diwylliannau eraill.


**Cerddoriaeth**
- Cerddoriaeth ac emosiynau.
- Ystyried cyfraniad cerddoriaeth y byd i ddiwylliant poblogaidd.
- Ystyried cerddoriaeth o chwyldroadau pobl, caneuon i fynegi teimladau.
- Canu a chyfansoddi caneuon am faterion byd-eang.
- Ystyried cerddoriaeth fel ffordd o ymateb i'r amgylchedd.

**Addysg gorfforol ac addysg awyr-agored**
- Dysgu am werth chwarae ac ymarfer corff er mwyn byw yn iach ac yn gymdeithasol.
- Dysgu gwerthfawrogi pwysigrwydd cydweithio.
- Ystyried ffyrdd o oresgyn anawsterau, datblygu hunan-barch a hyder.
- Darganfod dylanwad mathau o ddawns a gêmau o wledydd eraill; cyfoeth cymdeithasau eraill.
- Cerdded a beicio i'r ysgol.
- Dysgu gwerthfawrogi'r amgylchedd a gweithredu mewn ffordd gynaliadwy.
- Dysgu am fabolgampwyr o wahanol wledydd, beth sy'n eu hysgogi, a'u profiadau.

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008



**Addysg Grefyddol**

- Ystyried materion sy'n codi mewn crefyddau a rhyngddynt; deall dylanwad credoau, gwerthoedd a thraddodiadau ar unigolion, cymdeithasau, cymunedau a diwylliannau.
- Ystyried cwestiynau'n ymwneud ag ystyr a phwrpas bywyd.
- Dysgu am addysg grefyddol a moesol.
- Myfyrio ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u harferion eu hunain.
- Darganfod a phrofi'r cyfoeth a'r amrywiaeth a geir mewn traddodiadau crefyddol a'r ffordd y cânt eu mynegi trwy arferion a defodau fel addoliad, llenyddiaeth, drama, dawns, cerddoriaeth a chelfyddyd.
- Annog parch a goddefgarwch at gredoau ac arferion pobl eraill a chydymdeimlad â nhw.
- Ystyried agweddau gwahanol grefyddau at yr amgylchedd, byd natur, twf economaidd ac ati.

**Ieithoedd Modern**

- Defnyddio deunyddiau dilys ar faterion byd-eang o wledydd neu gymunedau'r iaith darged
- Cyfathrebu â siaradwyr brodorol e.e. drwy bartneriaethau ag ysgolion a phrosiectau TGCh
- Dysgu am y ffyrdd o fyw yn y gwledydd hynny lle mae pobl yn siarad yr iaith
- Trafod neu chwarae rôl yn yr iaith dan sylw ynghylch datblygu cynaliadwy a materion byd-eang eraill

**Economeg ac Astudiaethau Busnes**

- Dysgu am y materion economaidd a diwydiannol sy'n effeithio ar rannau o'r byd
- Cydnabod y cysylltiadau lleol a byd-eang rhwng y materion hyn
- Dysgu am gytundebau rhyngwladol a'u heffaith
- Globaleiddio a'r materion y mae'r broses hon yn eu codi
- Datblygu economaidd a'i effeithiau positif a negyddol

## Bagloriaeth Cymru

Mae llawer o ysgolion uwchradd yn cynnig cymhwyster Bagloriaeth Cymru i bob disgybl ôl-16, ar un o dair lefel, Sylfaen, Canolradd neu Uwch. Ceir llawer o gyfleoedd ar gyfer ADCDF ym modiwlau *Cymru*,

*Ewrop a'r Byd*, mewn *Addysg Bersonol a Chymdeithasol* ac yn Gyrfaoedd a'r byd gwaith (http://www.bagloriaethcymru.org.uk/).

## Gweithio ar draws y Cwricwlwm

Mae *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu* (APADGOS, 2008) yn pwysleisio bod Cwricwlwm Diwygiedig Cymru yn rhoi rhyddid i ysgolion drefnu a chyflwyno'r cwricwlwm yn y ffordd fwyaf addas ar gyfer eu hamgylchiadau a'u hanghenion nhw. Mae'n awgrymu y gellid gwneud hyn trwy ddewis **themâu neu destunau**.

Gall y dull hwn o ddysgu fod yn arbennig o fanteisiol ar gyfer ADCDF lle gellir helpu disgyblion i ddeall cymhlethdod cydgysylltiadau yn eu bywydau trwy gysylltu syniadau, testunau a phynciau.




“Yn ystod profiad ysgol yn ddiweddar, fe wnes i gyflwyno'r testun i'r grŵp trwy roi tipyn o ffeithiau iddyn nhw am ein mater cudd a rhoi banana mewn bag teimlo du. Ar ôl cael nifer o awgrymiadau, tynnodd un o'r plant y ffrwyth o'r bag a dyna beth y buom yn canolbwyntio arno am bedair wythnos. Yn ystod y cyfnod hwnnw, fe fuom yn trafod swyddi - pwy ddylai ennill y cyflog mwyaf a pham.

Rhoesom y swyddi mewn trefn a thrafod pob un. Roeddem yn gwrando ar safbwynt y llongwyr, y tyfwyr ac ati. Fe wnaethon ni ddysgu am yr arian oedd yn newid dwylo a thrafod masnach deg. Yna, bu'r plant yn meddwl am gwestiynau i ymchwilio iddynt. Fe wnaethon nhw ddefnyddio gwefan Wibdeco a llyfrau”
*Hyfforddai TAR cynradd*


CAT

Bu'r disgyblion yn ymchwilio i effaith bellgyrhaeddol cynhyrchion trwy chwarae 'Lle mae'r Effaith?' (y Ganolfan Dechnoleg Amgen, 2004). Buont yn ymchwilio i gylch oes cynnyrch penodol - faint o gludiant, ynni ac adnoddau a ddefnyddiwyd a'r effaith ar bobl a'r amgylchedd. Buont yn trafod sut y gellid addasu'r cynnyrch a'i gylch oes i ddefnyddio llai o ynni, rhyddhau llai o garbon a chael llai o effeithiau eraill. Trafodwyd themâu ADCDF fel Newid yn yr Hinsawdd, Defnyddio a Gwastraffu, yr Amgylchedd Naturiol, Dewisiadau a Phenderfyniadau, a Cyfoeth a Thlodi. Roedd hyn yn fodd i ddatblygu sgiliau meddwl, ymchwilio a TGCh y disgyblion ac roedd yn trafod agweddau ar Ddaearyddiaeth, Gwyddoniaeth, TGCh, Mathemateg a Dylunio a Thechnoleg.



Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

## Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth

Nid yn yr ystafell ddosbarth y gwneir yr holl ddysgu. Mae nifer o gyfleoedd i gyfrannu at ADCDF trwy ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth a gall hyn fod yn ddolen gyswllt bwysig rhwng theori ADCDF a realiti'r materion sy'n effeithio ar ein ffordd o fyw a'r byd o'n cwmpas. O'i ddefnyddio'n effeithiol, gall dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth fod yn offeryn pwysig i helpu disgyblion i sylweddoli bod y materion sy'n eu hwynebu yn rhai cymhleth a bod yr atebion yn debygol o fod yn rhai llwyd yn hytrach nag yn ddu a gwyn.

Mae Safon SAC 3.1.5 yn ei gwneud yn ofynnol i hyfforddeion ddangos, fel y bo'n berthnasol i'r ystod oedran y maent wedi'u hyfforddi ar ei gyfer, y gallant drefnu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu mewn cyd-destunau y tu allan i'r ysgol, fel ymweliadau, amgueddfeydd, theatrau, gwaith maes a lleoliadau ar sail cyflogaeth, gyda help aelodau eraill o staff lle y bo'n briodol.

Gall ADCDF y tu allan i'r ystafell ddosbarth fod yn amrywiol iawn e.e. dysgu am ryngddibyniaeth ac amrywiaeth yn yr amgylchedd naturiol, cynnal arolygon o safbwyntiau ar faterion cyfoes fel masnach deg, ymweld ag amgueddfeydd i ddysgu am effaith digwyddiadau yn y gorffennol ar y presennol, a hyd yn oed ymweld ag ysgolion mewn gwledydd eraill.



Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Mae'r ddogfen *Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth (APADGOS, 2008)* yn cyfeirio at y llu o gyfleoedd i gyfrannu at ADCDF trwy astudio'r amgylchedd naturiol. Trwy fod yn yr awyr agored a gweithio gyda phethau byw yn eu hamgylchedd, gall plant ddechrau deall sut y mae byd natur yn gweithio a sut y cynhyrchir defnyddiau ohono. Gallant hefyd ddatblygu'r agweddau, y gwerthoedd a'r ymrwymiad y bydd arnynt eu hangen i gynnal newid poblogaidd a chynaliadwy.

# 8 Astudiaethau achos ysgol-gyfan

Mae Cyd-ddealltwriaeth ADCDF yn sôn am bwysigrwydd ymrwymiad ac arweiniad, rheolaeth ysgolion, partneriaethau a'r gymuned, gwaith ymchwil a monitro yn ogystal â dysgu ac addysgu.

Dyma nifer o astudiaethau achos ffuglennol sy'n dangos cyfuniad o bethau y mae ysgolion yn eu gwneud wrth ddatblygu ADCDF.

Pa enghreifftiau a welwch chi o'r elfennau a ganlyn:

- Ymrwymiad ac arweiniad
- Dysgu ac Addysgu
- Rheoli ysgol
- Partneriaethau a chymuned
- Gwaith ymchwil a monitro

### Sut y gallai'r ysgolion hyn ddatblygu ADCDF mewn ffordd fwy cydgysylltiedig?

### A fyddech chi'n gwneud rhywbeth yn wahanol?

Mae Ysgol A yn ysgol gynradd wledig â 300 o ddisgyblion. Bu'n Ysgol Werdd ers sawl blwyddyn ac mae wedi datblygu polisïau da i arbed ynni a pholisi teithio sy'n cynnwys bws cerdded ar gyfer Bl 1 a 2. Mae hefyd yn gweithio i ennill statws Ysgol Iach. Mae'r disgyblion yn cydweithio â garddwr o'r pentref i ofalu am ardd yr ysgol. Nid oes cymdeithas rhieni-athrawon. Mae cynrychiolwyr o bob blwyddyn ar y cyngor ysgol ond nid yw disgyblion y dosbarthiadau i gyd yn teimlo'n rhan o hyn. Bu'r athrawon yn hybu cysylltiad rhyngwladol gydag ysgol yn Lesotho ers sawl blwyddyn. Bu'r Prifathro a phennaeth yr adran iau yn Lesotho am wythnos a daeth dau athro i'r ysgol hon. Cyfnewid manylion personol y disgyblion yw'r rhan fwyaf o'r gwaith a wnaed rhwng y ddwy ysgol. Nodwyd yn yr adroddiad ar arolygiad yr ysgol ei bod wedi dechrau datblygu ADCDF ond y gallai wneud mwy i fanteisio ar y cyfleoedd.

Ceir astudiaethau achos o ysgolion yng Nghymru yn adran ADCDF gwefan GCaD Cymru www.ngfl-cymru.org.uk.

Ysgol uwchradd yw Ysgol B. Nid oes ganddi bolisi ar ADCDF ond mae'n ymwneud â llawer o faterion ADCDF trwy'r cwricwlwm a archwiliwyd ar gyfer ADCDF y llynedd. Mae'r ysgol wedi dechrau gweithio tuag at ddod yn EcoYsgol ond mae ganddi broblem fawr o hyd gyda sbwriel ar dir yr ysgol. Mae adeiladau'r ysgol yn hen iawn ac nid ydynt yn defnyddio ynni'n effeithlon.

Mae'r athrawon yn tueddu i weithio mewn timau pwnc a phrin iawn y maent yn trafod eu gwaith gydag athrawon pynciau eraill. Mae rhai disgyblion Blwyddyn 11 yn astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru a bu Pennaeth Blwyddyn 11 yn ceisio canfod siaradwyr addas i ddod i'r ysgol i gyfrannu at ddysgu modiwl Cymru, Ewrop a'r Byd. Bob blwyddyn, mae'r ysgol yn cynnal wythnos ar gyfer Blwyddyn 9 pan wahoddir sefydliadau i'r ysgol i gynnal gweithgareddau'n ymwneud ag ADCDF. Elusennau yw'r rhain yn bennaf. Mae'r dirprwy bennaeth wedi dechrau archwilio ADCDF trwy'r ysgol gyfan.


Yn y *Diweddariad ar arolygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion* (Estyn 2006), mae Estyn yn rhoi tabl o'r camau y mae ysgolion yn mynd trwyddynt wrth ddatblygu ADCDF. Efallai yr hoffech feddwl sut y mae'r ysgolion hyn yn rhan o'r continwwm hwnnw.

Yn *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion* (APADGOS, 2008), ceir offeryn archwilio ysgolion sy'n helpu'r ysgol i fonitro'i datblygiad o ran Ymrwymiad ac Arweiniad, Dysgu ac Addysgu, Rheoli'r Ysgol, Partneriaethau a Chymuned, ac Ymchwil a Monitro.

### Pan fyddwch ar brofiad ysgol, ystyriwch sut y mae'r ysgol yn hybu ADCDF.

Er enghraifft, a yw ADCDF yn cael ei gynnwys fel rhan o bolisïau'r ysgol? A oes Cydgysylltydd ADCDF? Pa fath o fyd sy'n cael ei gyfleu mewn arddangosiadau yn yr ysgol a'r ystafelloedd dosbarth? A yw'r delweddau'n herio ynteu'n cadarnhau stereoteipiau? Ydi'r disgyblion yn chwarae rhan mewn penderfyniadau a mentrau ADCDF?

# 9 Cynllunio ar gyfer eich dyfodol




**Llwyddodd dau o'r hyfforddeion a gymerodd ran ym mhrosiect Caethweision Llechi Prifysgol Bangor, Cymru-Jamaica i gael swyddi dysgu yn yr ysgolion lle buont yn gweithio. Mae'r ddau wedi dal ati i ddatblygu eu gwaith ar ADCDF trwy gymryd pob cyfle ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac erbyn hyn maent yn gydgysylltwyr ADCDF yn eu hysgolion.**

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

Os hoffech ddysgu mwy am ADCDF a'i gynnwys yn eich Datblygiad Proffesiynol Cynnar, beth am ei gynnwys yn eich Proffil Dechrau Gyrfa.

Gallech ystyried:

- yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen i chi eu datblygu ar gyfer ADCDF
- y methodolegau dysgu ac addysgu y bydd angen i chi eu hymarfer
- yr hyfforddiant y bydd arnoch ei angen yn y dyfodol ar gyfer ADCDF
- sut i ddatblygu sgiliau arwain yn ADCDF

**Ym mha agweddau ar ddysgu yr hoffech gael profiad pellach ohonynt yn y dyfodol?**

| | |
|---|---|
| **Cryfderau yr hoffech adeiladu arnynt**<br><br>Dysgu ADCDF yn yr ystafell ddosbarth | **Camau gweithredu neu gyfleoedd datblygu penodol a fyddai'n werthfawr wrth ddatblygu eich cryfderau ymhellach**<br><br>Modiwlau AALl ac MA ar ADCDF. Grantiau i ddatblygu ASD. |
| **Agweddau yr hoffech eu datblygu ymhellach**<br><br>Dysgu mwy am strategaethau dysgu ac addysgu ADCDF | **Syniadau ar sut y byddai profiadau neu gyfleoedd newydd neu ychwanegol yn eich helpu i ddatblygu'r agweddau hyn**<br><br>Datblygu partneriaeth ryngwladol |

# 10 Dogfennau ac adnoddau

## Dogfennau Llywodraeth Cynulliad Cymru y mae'r llyfryn hwn yn cyfeirio atynt

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion (APADGOS, 2008). Hon yw'r ddogfen Gymreig allweddol sy'n ymdrin ag ADCDF. Mae'n cynnwys diffiniadau, canlyniadau dysgu ac enghreifftiau ymarferol o'r meysydd allweddol.

Manteisio i'r eithaf ar ddysgu (APADGOS, 2008).

Gorchmynion pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol (AADG, 2008).

Addysg Bersonol a Chymdeithasol (AADG, 2008, AC/GM/0828) - mae'n cynnwys ADCDF fel un o'i phum thema.

Diweddariad ar arolygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion (Estyn, 2006).

Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth (AADG 022/ 2007).

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu(AADGOS, 2006).

## Dogfennau allweddol ar gyfer hyfforddeion ac athrawon

Rhestrir isod rhai dogfennau allweddol ar gyfer hyfforddeion. Nid yw'n rhestr gyflawn, ond yn hytrach maent yn awgrymiadau i'ch helpu i ddechrau arni. Maent yn gysylltiedig â'r themâu yn y ddogfen *ADCDF: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer ysgolion* (APADGOS, 2008), ac yn ategu'r awgrymiadau a nodwyd yn y llyfryn hwn.


Building Energy Efficiency in Schools - A guide to a Whole School Approach BRECSU.

Citizenship Education: the global dimension: guidance for key stages 3 and 4. Brownlie, A. (2001) Development Education Association.

Citizenship and the challenge of global education. Osler, A. a Vincent, K. (2002) Trentham.

Developing a Global Dimension in the School Curriculum. Yr Adran Addysg a Chyflogaeth (2005) Llundain:DfES 1409/2005DOC-ED.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Pam? Beth? Sut? (ACCAC, 2002) Cyf: AC/GM/0317.

Education for Sustainability, Huckle, J. a Sterling, S. gol. (1996) Earthscan.

Education and Sustainability: Responding to the Global Challenge, Tilbury, D. et al. (2002) IUCN

Education for a Global Citizenship: A Guide for Schools. Oxfam (2006).

Key Issues in Sustainable Development and Learning: A Critical Review, Scott, W. a Gough, S. gol. (2003) RoutledgeFalmer (375.57452).

Lessons for the Future: The Missing Dimension in Education, Bell, B. (2002) Foreword, yn: Hicks, D., RoutledgeFalmer.

Not Aliens: primary school children and the Citizenship/PSHE curriculum. Claire, H. (2001) Trentham Books.

Sustainable Education: Re-visioning Learning and Change, Sterling, S. (2001) Green Books ar ran Cymdeithas Schumacher.

Sustainability and Learning: what role for the curriculum? Scott, W. (2002) Darlith gyntaf yr Athro William Scott, Prifysgol Caerfaddon, 25 Ebrill 2002 http://www.bath.ac.uk/cree/scott.htm.

Teaching and learning for a Sustainable Future, UNESCO (2000) UNESCO, CD ROM neu http://www.unesco.org/education/tlsf/.

Techniques to help teachers explore pupils' values and the effect on values of global education. Also offers tools for monitoring and evaluating knowledge, understanding and skills. Helen Lawson (Prifysgol Metropolitan Manceinion) http://www.citized.info/pdf/commarticles/Helen_Lawson.doc.

*'Values and values education in the geography curriculum in relations to concepts of citizenship'*, Slater, F. (2001), tt. 42-67 yn: Lambert, D. a Machon, P. Citizenship through Secondary Geography. Llundain : RoutledgeFalmer.

Visions of the future: Why we need to teach for tomorrow. Hicks, D a Holden, C (1995) Trentham Books.

Where's the Impact, y Ganolfan Dechnoleg Amgen (2004).

**Dofennau allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu**

**Y Cyfnod Sylfaen**

Drama and Traditional Story for the Early Years, Toye, N., Prendeville, F. (2000) RoutledgeFalmer.

Early Years Equality www.earlyyearsequality.org.

Growing up Global, Garforth, G, Hopper, L., Lowe, B. a Robinson, L. (2006) RISC.

Key Stage 1 and global citizenship, DEC (2001) Birmingham: TIDE DEC.

To Begin at the Beginning. Bringing a Global Dimension to the Early Years, Brightwell, J. a Fidgin, N. (2005) Development Education in Dorset (DEED).

**Cynradd**

Fat Felts and Sugar Paper: Activities for Speaking and Listening About Issues. Johnson, C. L. (1998), Teachers in Development Education (TIDE).

Global Citizenship : the handbook for primary teaching, Young, M a Commins, E. (2002) Oxfam.

Local citizen; global citizen : activities for teaching citizenship and personal-social development - for use with 8- to 12-year-olds, Brown, M a Durie, D. (2000) Christian Aid.

Teaching the tricky bits: Topical, political and controversial issues. Holden, C. (2002) Education 3-13, 30:2, 17 - 23 Ar gael yn: http://dx.doi.org/10.1080/03004270285200181.

Values and Visions: Spiritual Development & Global Awareness in the Primary School, Burns, A. a Lamont, G. (1995) Hodder & Stoughton.

**Cynradd ac Uwchradd**

Children Thinking Creating Learning Opportunities through Enquiry www.childrenthinking.co.uk.

Citizenship for the Future. A Practical Classroom Guide. Hicks, D. (2001) WWF-UK.

Energy towards a sustainable lifestyle: 5 - 18. Mae'r canllaw hwn yn y gyfres ar Eco-ysgolion yn darparu cyngor ar sut i gynnwys disgyblion yn y broses o reoli ynni yn yr ysgol drwy gyfuno gofynion y cwricwlwm â gofynion y Cynllun Gwobrau Eco-ysgolion.

In the Global Classroom: Book 1, Pike and Selby (1998) Toronto, Pippin Publishing Corporation.

In the Global Classroom: Book 2, Pike and Selby (1998) Toronto, ~ Pippin Publishing Corporation.

Open Spaces for Dialogue and Enquiry in Education - www.osdemethodology.org.uk.

Teaching the Global Dimension. Hicks, D. a Holden, C. (2007) Oxon: Routledge.

**Penodol ar gyfer Uwchradd**

Education for Citizenship: Ideas into Action. Clough, N. a C. Holden (2001) Llundain: RoutledgeFalmer.

Get global: a skills-based approach to active global citizenship. Price, A. (2000) Action Aid.

**Adnoddau pwnc-benodol**

Association for Science Education: global dimension http://www.ase.org.uk/htm/ase_global/index1.php.

Citizenship: the global dimension. *Guidance for KS 3 & 4* DEA (2001) The Development Education Association, Llundain.

Energy Efficiency Lesson Plans for Trainee Teachers: Schemes of work, lesson plans and worksheets for Biology, Physics, Mathematics, Geography, English, Design & Technology (textiles, electronics, food) together with child development and the built environment. www.nea.org.uk.

European Picture Book Collection http://www.ncrcl.ac.uk/epbc/EN/index.asp.

Exploring values: outdoor activity session: an activity pack sharing experiences from Cumbria to support global citizenship education at KS3 and 4. CDEC (2005).

*Geography and the global dimension*, Young M. (2004) yn Scoffham, S. (Gol) Primary Geography Handbook. Sheffield. Y Gymdeithas Ddaearyddol.

Geography: the global dimension. Guidance for KS 3 & 4. DEA (2003) The Development Education Association, Llundain.

Just Business: activities on the global dimension for business studies  http://www.jusbiz.org/.

Mathematics: bringing citizenship to life in the maths classroom, Wright, P (2004) Llundain: Amnesty International UK.

Science: the global dimension. *Guidance for KS 3 & 4* DEA (2003) The Development Education Association, Llundain.

Step In - Sustainable Technology Education Project: Activities and case studies for design and technology and science www.stepin.org.

Sustainability Handbook (for Design and Technology teachers) Y Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT) (2007).

Thinking Through Geography, Leat, D. (1998) Chris Kington Publishing.

**Rhagor o wybodaeth am faterion byd-eang a datblygu cynaliadwy**

An Introduction to Global Citizenship, Dower, N. (2003) Gwasg Prifysgol Caeredin.

Capitalism and Its Economics: A Critical History, Dowd, D. (2000) Pluto.

Development in an unequal world, 80:20 Educating and Acting for a Better World, Regan, C. (gol.) (2002) 80:20 Ireland.

Ecological Literacy: Education and the Transition to a Post Modern World, Orr, D. (1992) Albany, State University of New York Press.

Globalization - Tame It or Scrap It? Buckman, G. (2004) Zed Books.

Global Citizenship, A Critical Reader, Dower, N. a Williams, J. (2002) (Gol) Caeredin, Gwasg Prifysgol Caeredin.

Global Sociology, Cohen, R. a Kennedy, P. (2000) Palgrave Macmillan (301).

Global warming. A very short introduction. Maslin. M. (2004).

Heat. How We Can Stop the Planet Burning (Paperback) Monbiot, G. (2007) Penguin Books Ltd.

In Defence of Global Capitalism, Norberg, J. (2001) Timbro AB.

The Exploration of the Future, World, Cornish, E. (2004) Futuring: Futures Society.

**Pethau i ysgogi trafodaeth**

Mae'r enghreifftiau hyn ar gyfer hyfforddeion yn dangos y math o drafodaethau y dylid eu cael yn yr ystafell ddosbarth wrth i'r disgyblion edrych ar y materion hyn a materion eraill sy'n ymwneud ag ADCDF.

**Globaleiddio, masnach a swyddogaeth cwmnïau mawr rhyngwladol**

Ceir dadleuon ffyrnig am globaleiddio, masnach a swyddogaeth cwmnïau mawr rhyngwladol. I weld y gwahanol safbwyntiau, darllenwch:

John Pilger: New rulers of the World on the evil that they bring http://video.google.com/videoplay?docid=-7932485454526581006.

Johan Norberg: Globalisation is Good. *http://video.google.com/videoplay?docid=5633239795464137680* Ar gael i'w brynu o: *http://www.electricsky.com/catalogue_detail.aspx?program=168*.

The Copenhagen Consensus - Subsidies and trade barriers looks at the pros and cons of trade subsidies *http://www.copenhagenconsensus.com/Default.aspx?ID=967*.

**Cynhesu byd-eang a newid yn yr hinsawdd**

I weld y consenswS gwyddonol bod cynhesu byd-eang a newid yn yr hinsawdd yn digwydd go iawn ac yn cael eu hachosi gan bobl, darllenwch:

IPPC http://www.ipcc-data.org/.

Hadley Centre www.metoffice.gov.uk/research/hadleycentre/.

Tyndall Centre for Climate Change - http://www.tyndall.ac.uk/.

James Hansen, NASA *http://www.guardian.co.uk/environment/2008/apr/07/climatechange.carbonemissions*.

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

I weld y drafodaeth am yr hyn y dylid ei wneud am newid yn yr hinsawdd:

a) Mae modd gwneud rhywbeth os gweithredwn nawr:

   Adroddiad Stern (2006) *http://www.hm-treasury.gov.uk/independent_reviews/stern_review_economics_climate_change/sternreview_summary.cfm* ar economeg newid yn yr hinsawdd.

b) Mae modd gwneud rhywbeth, ond dim ond drwy ymdrin ag ef fel argyfwng:

   Climate 'code red' The case for a sustainability emergency. David Sprat and Philip Sutton (2008) Friends of the Earth. Ar gael i'w lawrlwytho yn: http://www.carbonequity.info/climatecodered/index.html.

   Zero Carbon Britain - http://www.cat.org.uk ar sut y gall ddigwydd.

c) A ddylen ni dderbyn bod pethau wedi mynd yn rhy bell ac y dylem edrych ar ffyrdd o oroesi?

   James Lovelock (2007) http://royalsociety.org/page.asp?id=7250 (anerchiad drafft).

**Tarddiad a therfynau - y ddadl am adnoddau**

Mae llawer yn dadlau bod adnoddau allweddol yn mynd yn brin a bod hynny'n destun pryder difrifol.

Ceir trafodaeth am "derfynau tyfu" yn

http://www.guardian.co.uk/uk/2002/jul/07/research.waste.

http://www.progressive-economics.ca/2008/04/03/is-infinite-economic-growth-possible/.

Ceir trafodaeth sy'n dadlau "nad oes terfynau i dyfu" yn http://www.progressive-economics.ca/2008/04/03/is-infinite-economic-growth-possible/.

**Cylchgronau ac ati**

Critical Enquiry

Gender and Development

Journal of Adventure Education and Outdoor Learning

Environmental Education Research

New Internationalist www.newint.org

The Ecologist

The Journal of Environmental Education

The Journal of Ethics

The Development Education Journal

**Gwefannau**

Mae llawer o wefannau eraill yn trafod ADCDF. Dyma ddetholiad ohonynt yn ôl themâu ADCDF.

Ewch i www.adcdf-cymru.org.uk i gael gafael ar nifer o'r dogfennau y soniwyd amdanynt yn y cyhoeddiad hwn.

**Hunaniaeth ac Amrywiaeth**

Britkid, gwefan a noddir gan Comic Relief, addas ar gyfer CA2 a hŷn www.britkid.org.

Crosspoint: casgliad o gysylltiadau ym maes Hawliau Dynol, Gwrth-hiliaeth, Ffoaduriaid ac ati www.magenta.nl/crosspoint.

Sefydliadu Cysylltiadau Hiliol www.irr.org.uk. Mae ganddynt adran gyhoeddiadau ac adnoddau aml-gyfrwng ar hiliaeth a phresenoldeb pobl dduon ym Mhrydain www.homebeats.co.uk.

Ieithoedd y byd www.ethnologue.com.

Multiverse - adnoddau ar gyfer addysgwyr athrawon ac athrawon dan hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar lwyddiant addysgol disgyblion o gefndiroedd amrywiol. http://www.multiverse.ac.uk/.

QCA Respect for All http://www.qca.org.uk/6166.html.

**Newid yn yr Hinsawdd**

An Inconvenient Truth www.aninconvenienttruth.co.uk a chanllawiau i athrawon www.teachernet.gov.uk/sustainableschools/upload/CC%20Final%20guidance%204oct.pdf.

Carbon detectives www.carbondetectives.org.uk - gwefan am ôl troed carbon ysgolion.

Cydraddoldeb Hinsawdd http://www.carbonequity.info/.

Canolfan Hadley www.metoffice.gov.uk/research/hadleycentre/.

IPPC http://www.ipcc-data.org/.

Canolfan Tyndall ar gyfer Ymchwil i Newid yn yr Hinsawdd http://www.tyndall.ac.uk/.

Graffeg pwysig am newid yn yr hinsawdd http://www.vitalgraphics.net/climate2.cfm.

Gwefan Newid yn yr Hinsawdd Cymru www.newidhinsawddcymru.org.uk - gwefan i ysgolion.

**Yr Amgylchedd Naturiol**

Cyngor Cefn Gwlad Cymru http://www.codcefngwlad.org.uk educational-resources.aspx.

Cyngor Astudiaethau Maes www.field-studies-council.org/.

Growing schools http://www.teachernet.gov.uk/growingschools/.

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru www.gardenofwales.org.uk/.

Parciau Cenedlaethol http://www.nationalparks.gov.uk/learningabout/education-services.htm.

Asiantaeth yr Amgylchedd http://www.environment-agency.gov.uk/fun/?lang=_w.

Undeb Rhyngwladol Gwarchod Natur www.iucn.org.

RSPB www.rspb.org.uk.

**Defnyddio a gwastraffu**

Llywodraeth y DU: www.sustainabledevelopment.gov.uk/what/priority/consumption-production/index.htm.

Graffeg pwysig ar wastraff http://www.vitalgraphics.net/waste2/.

**Iechyd**

Consensws Copenhagen 2008, Papur ar Newyn a Diffyg Maeth gan Horton. S. www.copehagenconsensus.com.

Sefydliad Iechyd y Byd http://www.who.int/en/.

**Cyfoeth a Thlodi, Hawliau**

Cymorth Cristnogol ar dlodi http://www.christianaid.org.uk/stoppoverty/lifeonthemargins/facts/index.aspx.

Oxfam www.oxfam.org.uk.

Achub y Plant www.savethechildren.org.uk. Ceir adnoddau dysgu ar hawliau.

Cynhadledd UNICEF ar Hawliau'r Plentyn www.unicef.org/crc.

Lleisiau Ieuenctid UNICEF http://www.unicef.org/voy/.

Nodau Datblygu'r Mileniwm, y Cenhedloedd Unedig www.un.org/millenniumgoals.

Banc y Byd www.worldbank.org/poverty/.

### Dyfodol cadarnhaol a datblygu cynaliadwy

Newid yn yr Hinsawdd www.climatechallenge.gov.uk.

Globe www.globe.org.uk. Prosiect rhyngwladol lle mae disgyblion yn mesur agweddau ar eu hamgylchedd lleol, gan gynhyrchu data sy'n cael ei roi mewn cronfa ddata fyd-eang trwy'r rhyngrwyd. Yna, mae'r disgyblion yn gallu gweld y data sy'n cael ei gynnwys o bedwar ban byd. Mae'r cynllun yn cynnwys gweithgareddau ymarferol mewn Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth, Mathemateg a TGCh.

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy http://www.sd-commission.org.uk/wales.php.

Llywodraeth Cynulliad Cymru a Datblygu Cynaliadwy http://new.wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/?lang=cy.

Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy - www.wyfsd.org/.

WWF Learning - supporting learning for sustainability www.wwflearning.org.uk.

Pobl ifanc yn gweithredu ar Newid yn yr Hinsawdd - www.switchonswitchoff.org/.

Zero Carbon Britain - http://www.cat.org.uk.

### Ystadegau byd-eang

Gwefan Gapminder www.gapminder.org. Ystadegau a gwybodaeth arall am ddatblygu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar lefel leol, cenedlaethol a byd-eang.

Banc y Byd http://web.worldbank.org/.

Gwefan World Mapper http://www.sasi.group.shef.ac.uk/worldmapper/. Mae'r mapiau a welir ar y wefan hon yn gartogramau arwynebedd cyfartal, a elwir hefyd yn fapiau cyfartalu dwysedd. Mae'r cartogram yn addasu maint pob tiriogaeth yn dibynnu ar y newidyn sy'n cael ei fapio.

### Cynlluniau ysgolion cenedlaethol

Eco-Sgolion Cymru http://www.eco-schoolswales.org/home.asp.

Ysgolion Masnach Deg Cymru http://www.fairtradewales.com/schools/.

Ysgol Goedwig Cymru http://www.forestschoolwales.org.uk/.

Global Gateway www.globalgateway.org.uk/ for international partnerships.

Ysgolion Iach http://www.eysgoliach.org.uk/index.htm.

Learning through landscapes http://www.ltl.org.uk/.

Cynghorau Ysgol Cymru http://www.cynghorauysgolcymru.org.uk.

Ysgolion Cynaliadwy www.teachernet.gov.uk/sustainableschools/.

BBC Breathing Places www.bbc.co.uk/breathingplaces

**Cymorth ac adnoddau addysgol eraill**

Canolfan y Dechnoleg Amgen www.cat.org.uk - cymorth, hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer athrawon ac athrawon dan hyfforddiant yn ymwneud â holl faterion ADCDF a gwahanol bynciau.

CEWC-Cymru www.cewc-cymru.org.uk - cymorth i ysgolion ac adnoddau dwyieithog.

Cymorth Cristnogol: www.christian-aid.org/learn - adnoddau i'w lawrlwytho.

Cyfanfyd: Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghymru http://www.cyfanfyd.org.uk.

Development Education Association www.dea.org.uk.

Education for Sustainable Development (Lloegr) http://www.nc.uk.net/esd.

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang Cymru http://www.adcdf-cymru.org.uk/.

Enabling Effective Support - www.cyfanfyd.org.uk/ees.

Global Connections, Pembroke www.globalconnections.org.uk - canolfan gymorth ac adnoddau leol.

Gwefan Global Dimension: http://www.globaldimension.org.uk. Gwefannau Prydeinig a noddir gan DFID. Cronfa ddata fawr o adnoddau a chysylltiadau â chwricwla'r gwahanol wledydd.

Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (NGFL) tudalennau ADCDF http://www.gcad-cymru.org.uk/.

Open Spaces for Dialogue and Enquiry in Education - www.osdemethodology.org.uk.

Oxfam www.oxfam.org.uk/education, adnoddau i'w lawrlwytho, hefyd gellir gweld catalog sy'n cynnwys adnoddau gan lawer o fudiadau eraill.

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008

PEDEC Canolfan Addysg Amgylchedd a Datblygu Powys, Llanidloes www.pedec.org.uk - canolfan gymorth ac adnoddau leol.

ADCDF De-ddwyrain Cymru www.sewalesesdgc.org.uk - adnoddau ar-lein.

TIDE - deunyddiau dysgu byd-eang www.tidec.org.

Canolfan Addysg Byd, Prifysgol Bangor http://addysgbyd.bangor.ac.uk - canolfan cymorth addysgu, hyfforddi ac adnoddau.

WWF Learning www.wwflearning.org.uk adnoddau i'w lawrlwytho.

**Papurau Ymchwil ar ADCDF mewn HAGA**

*Attitudes toward education for global citizenship among trainee teachers*, Robbins, M., Francis, J., ac Elliott, E. (2003) Research in Education 69, 93-98.

Guidelines and Recommendations for Reorienting Teacher Education to Address Sustainability: Education for sustainable development in action, UNESCO 2005 Papur Technegol Rhif 2, Hydref 2005.

Initial Teacher Education and the Outdoor Classroom http://www.ase.org.uk/htm/teacher_zone/ITE%20report.pdf.

*Making global connections: The knowledge, understanding and motivation of trainee teachers*, Holden, C. a Hicks, D. (2007) Teaching and Teacher Education, Cyfrol 23, Rhifyn 1, Ionawr 2007, tudalen 13-23.

Providing a global dimension to Citizenship Education: a collaborative approach to student learning within Primary Initial Teacher Education, Martin, F.(2003) Gwefan citized http://www.citized.info/pdf/commarticles/Fran_Martin.pdf.

'*Student teachers' conceptions of sustainable development: the starting-points of geographers and scientists*, 'Summers, M., Corney, G. a Childs, A. (2004), Educational Research, 46:2, 163 - 182.

Making Space for the Global Dimension on a Primary PGCE course, Watts, P. a Mackay, S. (2007) http://escalate.ac.uk/3678.

DEP research on current practice in GD and ITE. http://www.globalteacher.org.uk/research.htm.

Sustainable development in teacher education http://www.ttrb.ac.uk/ViewArticle.aspx?contentId=11695.

ADCDF: Gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru

Gorffennaf 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 066/2008